Senedd Cymru
**Ymgysylltu â Dinasyddion**

# A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mawrth 2024

## Cefndir

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i fynediad at ofal plant ac addysg i blant a phobl ifanc anabl, ac i ba raddau y mae darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Hoffai'r Pwyllgor ddeall sut y gall plant a phobl ifanc sy'n niwrowahanol ac y mae ganddynt anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd neu anableddau dysgu gael mynediad at bob agwedd ar addysg a gofal plant.

Er mwyn sicrhau bod profiadau bywyd pobl yn ganolog i'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor yn ei chlywed, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

## Methodoleg

Hwyluswyd 40 o sesiynau ymgysylltu (*Cyfweliadau teuluol* o hyn allan) gyda rhieni a gofalwyr ac, o bryd i'w gilydd, gyda phlant.

Cynhaliwyd cyfweliadau teuluol yn rhithwir ac wyneb yn wyneb.

Roedd y sesiynau'n para tuag awr. Pan oedd plant yn cymryd rhan, chwaraewyd gêm o Jenga gyda geiriau allweddol ar rai o'r darnau. Wrth ddod o hyd i'r geiriau drwy chwarae gemau Jenga, gofynnwyd cwestiynau i'r plant am eu profiadau.

Gan ddefnyddio'r canllaw trafod fel fframwaith (gweler Atodiad 1) archwiliodd yr hwylusydd resymeg yr hyn yr oedd y cyfranogwyr yn ei ddweud drwy ofyn cwestiynau nad oeddent yn rhai arweiniol.

Ar ôl pob cyfweliad teuluol, ysgrifennwyd nodyn gair am air dienw.

### Sampl

Cysylltodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion â nifer o sefydliadau ac elusennau sydd eisoes yn gweithio gyda theuluoedd a allai fod yn gymwys i gymryd rhan.

Rhestrir y sefydliadau a roddodd wybod i deuluoedd am y cyfle i gymryd rhan yn Atodiad 2.

Gofynnwyd i sefydliadau roi gwybod i deuluoedd am y cyfle a gwahoddwyd y teuluoedd i gysylltu â'r Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion arweiniol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cymryd rhan. Y cyfranogwyr oedd yn cynnig eu hunain.

Cysylltodd 59 o deuluoedd â'r Senedd i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan.

Cymerodd 40 o deuluoedd ran mewn cyfweliadau teuluol (42 o oedolion a 17 o blant i gyd).

Roedd y rhai a gymerodd ran yn dod o 20 o ardaloedd Awdurdodau Lleol Cymru.

## Y Prif Ganfyddiadau

Nodir isod y prif themâu a oedd yn deillio o'r data, sy'n cynnwys cynhwysiant, mynediad ac effaith.

## 1. Cynhwysiant

Mae asesu anghenion addysgol plentyn yn amrywio o ysgol i ysgol; nid yw pob un yn bodloni'r gofynion ar gyfer plant anabl. Roedd llawer o deuluoedd a gafodd eu cyf-weld wedi symud i ysgol arall er mwyn cael cymorth digonol.

#### Triniaeth annheg

Ymhlith y themâu cyffredin a drafodwyd o ran addysg gynhwysol roedd triniaeth annheg, gydag achosion o aflonyddu a gwahaniaethu yn erbyn plant anabl mewn ysgolion, weithiau'n anfwriadol.

> *"Fe anfonon nhw lythyr adref i wahodd plant yn ei flwyddyn i ddysgu'r ffidil. Chawson ni mo'r llythyr hwnnw. Dim ond wrth i mi ddod allan y dywedodd "Ga i...ffidil..fi". Pan holais i, fe ddywedodd y staff fod y clyweliadau wedi gorffen. Mynnais eu bod yn ei ystyried ac felly fe gytunon nhw i gynnal clyweliad.*

*Doedd y person oedd yn ei gefnogi yn y sesiwn erioed wedi chwarae’r ffidil yn ei fywyd, a dywedodd y fenyw o’r sir nad oedd yn ddigon da.”* - Rhiant plentyn â dau glefyd genetig cynyddol.

Eglurodd rhiant plentyn â syndrom Down fod achos o eithrio cymdeithasol wedi bod yn y lleoliad cynradd lle'r oedd ei blentyn wedi'i wahardd rhag cymdeithasu â dau ddisgybl arall. *“Dywedodd yr athro mai’r rheswm am hyn oedd fod angen i’r plant eraill feithrin perthynas â phlant nodweddiadol yn y dosbarth. [...] Roeddwn yn torri fy nghalon ac yn teimlo o ddifrif fod fy mhlentyn yn cael ei drin fel dinesydd eilradd. [...] Mae rhai athrawon yn deall a rhai ddim yn deall o gwbl. Gydag unrhyw wahaniaethu, rwy’n siŵr bod yna bocedi, rydym yn bendant yn symud yn ein blaenau ond mae’n dal i ddigwydd.”*

Disgrifiodd rhiant sut y byddai’r ysgol yn gofyn i’w blentyn awtistig beidio â mynd i’r ysgol oherwydd nad oedd gan yr ysgol y staff angenrheidiol, er bod yr ysgol yn cael cyllid i gyflogi staff i gefnogi’r disgybl. *“Rydych yn teimlo’ch bod yn cael eich trin yn wahanol, oherwydd os chi yw'r unig un sy'n cael neges destun sy’n dweud peidiwch â dod â'ch plentyn i mewn yfory, mae'n teimlo'n anghywir. Dyw’r pethau hyn erioed wedi digwydd i mi gyda fy mhlentyn arall nad yw’n anabl [...] roedd yn fath enfawr o wahaniaethu.”*

Mae rhieni’n teimlo nad yw eu plant yn cael cyfleoedd cyfartal. Nododd un rhiant wahaniaeth amlwg iawn, gan bwysleisio na fyddai neb yn meddwl gadael plant niwronodweddiadol heb athro am 30 mis. Soniodd rhiant arall sydd â phlentyn â syndrom Down a dau o blant nad ydynt yn anabl am y frwydr barhaus dros gydraddoldeb, gan gydnabod ymdrechion yr ysgol gyfun ond gan nodi hefyd nad yw’r dewisiadau bob amser wedi bod yn gyfartal.

Materion yn ymwneud â chymorth gan yr awdurdodau lleol:

Roedd diffyg ymddiriedaeth yn gyffredinol yn yr awdurdod lleol.

*“Rwy’n teimlo at ei gilydd nad yw rhai o’r pethau mae’r cyngor yn eu dweud wrthych yn wir.” - Rhiant*

Roedd rhieni’n teimlo bod rhesymau ariannol dros lawer o'r penderfyniadau.

*“Roeddwn yn meddwl o hyd, wn i ddim a ydych chi'n dweud hyn am mai lles fy merch sydd bwysicaf neu a oes agenda arall.”*

Roedd rhieni'n aml yn mynychu cyfarfodydd lle nad oedd eu teimladau'n cael eu hystyried neu lle nad oeddent wedi cael digon o amser i baratoi. Roeddent yn teimlo'u bod yn cael eu taflu oddi ar eu hechel, yn cael eu rhoi dan bwysau, ac weithiau'n cael eu gwthio i gytuno â gweithwyr addysg proffesiynol oherwydd diffyg gwybodaeth am opsiynau eraill i'w plentyn.

> *"Roeddwn yn meddwl fy mod yn mynd yno ar gyfer adolygiad, ond roedd yn gyfarfod mawr, lle rhoddwyd wltimatwm i mi." – Rhiant*

Nid oedd gan riant plentyn awtistig dieiriau ddim dewis ond anfon ei blentyn i ysgol benodol, yn ddewis olaf oherwydd cyfyngiadau ariannu. Cawsant eu heithrio o ddiwrnod agored, a wnaeth iddynt deimlo fel dinasyddion eilradd.

Nododd rhai rhieni ddiffyg cyfathrebu sylfaenol gan weithwyr proffesiynol, ac roeddent am weld y rolau a'r cymorth sydd ar gael yn cael eu nodi'n glir. Roedd rhieni'n ansicr ynghylch dod o hyd i ysgolion addas ac yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol wrth chwilio am ddarpariaethau gwell i'w plant.

> *"Allwn i ddim cael gafael ar unrhyw un, ac fe gymerodd wyth wythnos i mi gael gwybod na allen nhw fy nghynghori. Fe ddywedwyd wrthyf y byddai rhaid i mi geisio gael gwybod hynny drosof fy hun." - Rhiant*
>
> *"Rwy'n cael gwybodaeth gan deuluoedd eraill, nid gan y bobl sydd i fod i ddarparu a chynnig y gwasanaethau hyn i chi – yr awdurdod lleol."*

Cafodd teulu sydd â phlentyn â thiwmor ar yr ymennydd wybod am ysgol arbenigol drwy siarad ag eraill, yn hytrach na chael gwybod gan yr awdurdod lleol. Cymerodd y broses 9 mis, ac aeth y plentyn i'r ysgol honno am ychydig dros flwyddyn cyn mynd yn rhy sâl. Dywedodd y rhiant ei fod yn gresynu at hynny, ac y byddai, pe bai wedi gwybod am opsiynau eraill yn gynharach, wedi ystyried dewisiadau a allai fod wedi bod yn well i'w fab.

### Labelu plant anabl a niwrowahanol a'u stigmateiddio:

> *"Maen nhw bob amser yn dweud ei fod yn ddrwg, ond mae hynny'n fy ypsetio oherwydd dyw e ddim yn ddrwg, mae'n awtistig." - Rhiant*

Dywedodd rhieni fod diffyg dealltwriaeth ynghylch rhai mathau o ymddygiad, gan arwain at labeli fel "drwg," "treisgar" ac "angen goruchwyliaeth ychwanegol" i'w plant. Roedd labeli o'r fath yn gwaethygu'r materion dan sylw ac, mewn rhai achosion, yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl eu plentyn/plant.

> *"Roedd llawer o'r dulliau disgyblu at ei gilydd yn codi cywilydd ar y plant ac yn eu cosbi. Rwy'n cofio yn y feithrinfa eu bod yn arddangos wynebau'r plant i gyd wedi'u lamineiddio, gydag enfys a chwmwl du, ac os oedd y plentyn yn "ddrwg" byddai ei wyneb yn cael ei symud at y cwmwl du. Fyddech chi byth yn arddangos hynny yn yr ystafell athrawon. Byddai hynny'n cael ei ystyried yn fwlio yn y gweithle. Pam maen nhw'n meddwl ei bod yn iawn gwneud hyn i blant?"* - Rhiant mabwysiadol sengl plentyn sydd wedi profi trawma sylweddol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
>
> *"Gwybodaeth, profiad a chyllid yw'r pethau sy'n atal ysgolion a meithrinfeydd rhag darparu addysg gynhwysol. Er enghraifft, mae'r feithrinfa weithiau'n categoreiddio fy mhlentyn ac yn ei roi mewn bocs, ac mae angen i'w meddyliau fod yn fwy agored ynghylch beth yw awtistiaeth mewn gwirionedd."* - Rhiant plentyn sydd ag epilepsi ac yr amheuir bod awtistiaeth arno.

### Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg

Soniodd llawer o rieni am faterion yn ymwneud â chael mynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg addas ar gyfer ystod o oedrannau.

> *"Nid yw erioed wedi cael addysg Gymraeg – oherwydd ei fod yn fyddar. Roedden nhw am ei ddatgymhwyso o hanes, daearyddiaeth a cherddoriaeth. Fe ddywedon nhw nad yw'n hygyrch."*
>
> *"Dydyn nhw [y plant] ddim yn siarad â fi yn Gymraeg. Fe ges i fy nghynghori i roi'r gorau i'w dysgu. Dywedodd y therapydd iaith a lleferydd wrthyf am ddewis iaith. [..] Roeddwn yn torri fy nghalon, yn galaru. Rwy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe wnes i lefain am ddyddiau."* – Rhiant i ddau o blant ag anghenion cymhleth lluosog

Dywedodd rhieni plentyn ag epilepsi cymhleth heb ei reoli nad oes gan eu plentyn yr un dewisiadau â phlant eraill o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Mae rhai o'r opsiynau sy'n cael eu cynnig i'w plentyn o ran addysg uwchradd yn golygu cael addysg cyfrwng Saesneg, er mai Cymraeg yw iaith gyntaf y plentyn.

### Y canfyddiad at ei gilydd oedd fod cymorth yn ystod pandemig Covid-19 yn debyg i'r hyn a oedd ar gael i bob plentyn

> *“Dydw i ddim yn meddwl bod fy mab wedi colli allan ar unrhyw beth heblaw’r hyn a gollwyd gan bob plentyn.”* - Rhiant

Dywedodd plant fod eu profiad o addysg yn ystod pandemig Covid-19 yn “hwyl” oherwydd nad oedd rhaid mynd i’r ysgol, a ddisgrifiwyd ganddynt fel rhywbeth “diflas”. Roeddent wedi mwynhau gallu gwneud gwaith ysgol yn y gwely. Creodd rhieni ar ffyrlo neu rieni oedd yn dysgu eu plant gartref raglenni sgiliau bywyd llwyddiannus yn seiliedig ar chwarae gyda chymorth rhithwir gan ysgolion. Fodd bynnag, cafodd rhai rhieni, oherwydd eu hamgylchiadau, anawsterau wrth geisio creu amgylchedd a oedd yn gydnaws â dysgu plant yn effeithiol gartref.

### Eithrio o deithiau preswyl

Codwyd hyn gan rai teuluoedd. Dywedodd y teuluoedd hynny nad oedd eu plant wedi cael profiadau cyfartal o ran teithiau dydd neu deithiau preswyl.

> *“Nid yw cyrsiau preswyl yn hygyrch i fy mab. Does dim clwb brecwast, does dim clybiau ar ôl ysgol a hyd yn oed nawr does dim ysgol haf. Does dim byd ychwanegol i’r rhai sydd ag anghenion cymhleth.”* - Rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd
>
> *“Cafodd ei wahardd y diwrnod cyn y trip ysgol. Roedd rhaid i mi holi tybed a oedd hyn yn fwriadol ar ôl popeth sydd wedi digwydd.”* - Rhiant a phlentyn sy'n aros am ddiagnosis o awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac Osgoi Gofynion Patholegol (PDA)

Fodd bynnag, dywedodd rhai teuluoedd hefyd fod yr ysgolion wedi gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cynllunio'n dda ac yn cefnogi eu plant anabl.

## 2. Mynediad

### Siwrneiau hirfaith i gael diagnosis

Roedd y llwybr tuag at ddiagnosis yn amrywio ymhlith y cyfranogwyr. Soniodd llawer o rieni eu bod wedi gorfod aros yn hir neu wedi penderfynu cael diagnosis allanol er mwyn gallu cael cymorth yn gynt. Roedd cost ariannol i hyn.

> *“Fe fyddai wedi bod yn argyfwng arnon ni pe baen ni wedi aros 18 mis i’r GIG gwblhau’r diagnosis.”*

> *"Maen nhw'n dweud wrthych na allan nhw brofi na gwirio oni bai bod "problemau go iawn". Wnaeth yr ysgol ddim talu am hynny beth bynnag oherwydd fe benderfynon ni dalu gyda'n harian ein hunain yn y diwedd [...] Fe dalais i £650 am asesiad dyslecsia, a dyna pam ei bod wedi cymryd hydoedd i allu ei fforddio."*

Roedd rhai rhieni'n teimlo, oherwydd eu bod wedi cael diagnosis cyn-geni, y gallent fod wedi cael cymorth yn rhwyddach, ond nid oedd bob amser yn anochel y byddai cymorth ar gael drwy gydol addysg y plentyn.

> *"Roedd y tro cyntaf y cawsom ein gwrthod yn syfrdanol. Mae ganddo gyflwr gydol oes a bydd angen cymorth arno ar gyfer ei addysg. [...] Roedd yn dipyn o her cael cymorth 100% i'm plentyn. Roedd rhaid i mi frwydro i gael hynny."*- Rhiant plentyn â syndrom Down

Dywedodd rhai rhieni, pan oedd modd nodi cyn-ddiagnosis, fod ysgolion wedi cymryd hynny i ystyriaeth. Fodd bynnag, heb ddiagnosis swyddogol, nid oeddent yn gallu cynnig mwy o gymorth oherwydd cyfyngiadau ariannu.

> *"Mae'r ysgol wedi bod yn anhygoel ac wedi gweithredu cyn y diagnosis."*

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd diffyg diagnosis yn golygu diffyg mynediad at gymorth mewn lleoliad addysg ac roedd cael diagnosis yn rhywbeth yr oedd angen i'r ysgol ei ysgogi. Dywedodd rhai rhieni bod hyn yn "anodd", a'u bod yn teimlo bod eu plant yn cuddio pwy ydyn nhw mewn gwirionedd yn yr ysgol, ond eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain gartref.

Dywedwyd bod cwotâu o ran cyflwyno plant ar gyfer diagnosis yn gyfyngedig. Roedd rhai rhieni'n holi pam na allai staff fod yn rhan o'r broses hon er mwyn i bethau allu symud yn gynt.

> *"Mae gan ysgolion Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac rwy'n credu y dylen nhw gael eu huwchsgilio er mwyn iddyn nhw allu rhoi diagnosis i'r plant eu hunain."*

Dywedodd rhieni eu bod yn gwbl ymwybodol fod pob diwrnod pan nad oedd eu plentyn yn cael y cymorth angenrheidiol yn ddiwrnod arall pan nad oeddent yn cael addysg lawn.

> *"Rydyn ni wedi gorfod aros mor hir am y cymorth mae e nawr yn ei gael ac mae wedi colli cymaint o gyfleoedd, mae wedi cael cyfnodau anodd ac mae hynny wedi gwneud addysg yn beth negyddol iddo. Mae'n dweud nad yw e eisiau bod yn fyw mwyach, a phan fyddwch chi'n clywed eich mab deg oed yn dweud hynny mae'n torri eich calon."*

Dywedodd llawer o rieni eu bod yn meddwl y byddai cael diagnosis yn golygu y byddai'r awdurdod lleol yn eu cyfeirio'n awtomatig at wybodaeth ond nid oedd hyn yn tueddu i ddigwydd i lawer o deuluoedd:

> *"Ar ôl cael diagnosis, roeddwn i'n meddwl y byddai miliwn o bethau'n dod ataf o ran cynnig help, ond yn anffodus, oherwydd ein hawdurdod lleol, dydw i ddim wedi cael cynnig rhyw lawer o gwbl."*

Yn anffodus i rai plant, oherwydd yr oedi, bydd y diagnosis yn dod yn rhy hwyr i gael effaith:

> *"Bydd wedi gadael yr ysgol cyn iddo gael diagnosis."*

### Gwasanaethau iechyd annigonol i helpu plant i gael mynediad at Addysg

Roedd mynediad at wasanaethau fel therapi lleferydd ac iaith digonol, a therapi galwedigaethol drosodd a thro wedi'u rhestru fel mentrau a fyddai'n gwella hygyrchedd a chynhwysiant mewn addysg.

> *"Mae therapi iaith a lleferydd yn broblem fawr iawn [...] Efallai na fydd fy mhlentyn byth yn gallu siarad, ond allwn ni ddim gadael iddi a disgwyl iddi gario ymlaen."* - Rhiant plentyn yn y blynyddoedd cynnar sydd wedi cael diagnosis o epilepsi ac yr amheuir bod awtistiaeth arno.
>
> *"Rwy'n teimlo bod y ddarpariaeth iaith a lleferydd yn ddiffygiol a bod addysg ac iechyd yn taflu'r mater yn ôl a blaen o ran pwy sy'n gyfrifol amdano." – Rhiant plentyn â chyflwr genetig prin sy'n achosi anableddau corfforol a gwybyddol.*

Roedd rhiant plentyn â spina bifida o'r farn bod cymorth eistedd i'r plentyn yn beryglus. Er gwaethaf cais gan y seicolegydd addysg am sedd ar lawr, mynnodd y therapydd galwedigaethol fod y plentyn yn pwyso yn erbyn hen reiddiadur. Cafodd y plentyn, nad oedd yn gallu defnyddio'i ddwylo fel plant eraill, anawsterau. Gwrthododd y therapydd galwedigaethol gymorth gyda thechnoleg, gan honni nad ei gyfrifoldeb ef oedd hynny. Cymerodd gryn ymdrech i'r rhiant gael archwiliad cywir o'r plentyn, ac roedd diffyg manylion meddygol yn atgyfeiriad yr ysgol. Mynegodd rhieni rwystredigaeth â newidiadau staffio cyson.

> *"Mae wedi gweld tri therapydd iaith a lleferydd gwahanol hyd yma, ac mae'n ddwy oed."* - Rhiant

> *"Doedd dim cyfathrebu, a phan adawodd un therapydd iaith a lleferydd a chafodd un arall ei recriwtio, welodd fy mhlentyn i ddim gweithiwr proffesiynol i gael cymorth am 6 mis." - Rhiant*

Beirniadodd rhiant plentyn â thiwmor ar yr ymennydd wasanaethau ffisiotherapi'r GIG am beidio â gosod nodau ac roedd hefyd o'r farn bod gwasanaethau'n gyfyngedig oherwydd nad oedd swyddi'n cael eu hôl-lenwi yn ystod cyfnodau mamolaeth. Mynegodd rhiant arall sydd â phlentyn â pharlys yr ymennydd bryder ynghylch y ffaith bod dosbarthiadau mawr yn golygu mai cyfyngedig yw gwasanaethau ffisiotherapi'r GIG sy'n cael eu rhannu ymhlith y disgyblion. Mynegodd bryder nad oedd ei blentyn yn cael gofal digonol.

Roedd rhieni plentyn sydd ag epilepsi ac yr amheuir bod awtistiaeth arno yn anfodlon â diffyg gweithredu'r tîm datblygu dros ddwy flynedd. Mae'r tîm datblygu'n cynnwys y nyrs ddatblygu, gweithiwr therapi lleferydd ac iaith proffesiynol a gweithwyr iechyd galwedigaethol proffesiynol. Yr unig beth wnaeth y tîm oedd asesu galluoedd y plentyn heb ddarparu cymorth nac atgyfeiriadau, gan adael i'r rhiant ymdrin â phryderon diogelwch drwy strapio'r plentyn mewn bygi. Gwrthodwyd mynediad at gyfarpar hanfodol fel cadair olwyn, er gwaethaf cais y rhiant am resymau diogelwch.

### Nid yw dulliau a strwythurau mewn ysgolion wedi'u cynllunio i bawb:

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod rôl ysgolion mewn addysg ond yn tynnu sylw at duedd i ddiystyru gwydnwch iechyd meddwl. Pwysleisiodd sawl un fod angen mwy o gefnogaeth ar eu plant gydag agweddau cymdeithasol, ond bod asesiadau academaidd yn anaddas at ei gilydd ar gyfer llawer o blant anabl. Mewn un sesiwn, dywedodd rhiant plentyn pump oed a oedd yn aros am ddiagnosis o awtistiaeth, ADHD a PDA fod angen mwy o arbenigedd o ran adnabod ymddygiadau penodol yn hytrach na chanolbwyntio ar waith academaidd.

> *"O ran fy mhlentyn i, doedd hi "ddim yn ffitio i mewn" wrth i'r cwricwlwm TGAU ddechrau. Daeth cael ei thrin yn wahanol, a'i haddysgu ar wahân, yn fwyfwy arferol."*
>
> *"Maen nhw bob amser yn canolbwyntio ar "mae angen i ni addasu'r plentyn" nid "mae angen i ni addasu ein hymarfer"." - Rhiant*

Roedd rhai dulliau addysgu yn golygu bod rhai rhieni'n teimlo nad oedd eu plant yn cael eu herio ddigon yn yr ysgol oherwydd nad oedd yr athrawon yn cynllunio tasgau a oedd yn addas ar gyfer eu plant. Dywedwyd bod yr ysgol yn tawelu'r plant yn hytrach na cheisio addasu'r gweithgareddau i'w gwneud yn haws i'r plant gymryd rhan.

*"Rwy'n cwestiynu ac yn gofidio bod yr ysgol yn mynd dros yr un pethau sydd ar lefel ysgol feithrin dro ar ôl tro."* - Rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd

*"Fydden nhw ddim fel arfer yn anfon plentyn 10 oed i chwarae gyda phlant 5 oed. Ond dwi'n cymryd eu bod yn gwneud hynny pan fyddan nhw'n brin o staff."* - Rhiant plentyn â syndrom Down

Roedd plant anabl yn aml yn cael eu cadw ar wahân, ac yn cael cymorth un-i-un gan gynorthwyydd addysgu yn hytrach na'r athro. Roedd hyn yn golygu bod diffyg ymwybyddiaeth gan y sawl sy'n gosod y gwaith ynghylch lefel wirioneddol y plentyn, gan nad oeddent yn rhyngweithio'n rheolaidd â disgyblion anabl. Mewn sesiwn ymgysylltu, dywedodd plentyn nad oedd athrawon yn ymwybodol o alluoedd ei chwaer anabl. Yn ystod y cyfnod clo, roedd ei chwaer, yn yr ysgol uwchradd, yn cael gwaith oedd yn rhy hawdd o'i gymharu ag aseiniadau lefel ysgol gynradd y plentyn, a oedd yn awgrymu diffyg cyfatebiaeth yn lefel anhawster y tasgau.

Priodoli diffyg dealltwriaeth i ddiffyg hyfforddiant yn bennaf:

*"Dyw hi ddim wedi bod yn hawdd gwneud iddynt ddeall mai anabledd yw hyn a bod angen i ni ei drin fel anabledd." - Rhiant*

Dywedodd y rhieni eu bod yn teimlo bod eu plant yn siŵr o fethu bob dydd am nad oedd yr ysgol yn fodlon gwneud addasiadau rhesymol. Roeddent hefyd yn teimlo nad oedd ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r ystod o anableddau oherwydd diffyg hyfforddiant.

*"Gofynnais am gais rhyddid gwybodaeth yn ei hysgol AAA ddiwethaf i gael gwybod faint o athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn PECS [System Gyfathrebu Cyfnewid Darluniau] – nid yn unig cwrs ymwybyddiaeth PECS, ond cymhwyster PECS Pyramid Education, a'r ateb oedd 'dim un' – roedd pobl nad oeddent wedi cael hyfforddiant eu hunain yn dysgu'r system PECS i fy merch. Cefais fy syfrdanu."* – Rhiant plentyn â chyflwr genetig

*"Pan fydd wedi cael canlyniad (cosb), y peth cyntaf maen nhw'n ei wneud yw cymryd ei amser chwarae oddi arno. I blentyn ag ADHD mae hynny'n mynd i wneud y broblem yn waeth."* Rhiant plentyn awtistig mewn ysgol gynradd brif ffrwd

Eglurodd rhai cyfranogwyr fod diffyg arbenigedd a staffio anghyson yn gwaethygu pethau.

> *“Rwy’n meddwl y dylai Cydlynydd ADY fod yn Gydlynydd ADY a dim byd arall. Yn enwedig pan fydd gennych chi dros 1000 o blant yn eich ysgol.” - Rhiant*
>
> *“Doedd gan y Cydlynydd ADY ddim profiad ac roedd yn dysgu yn y swydd.” - Rhiant*

Roedd plentyn awtistig yn un o’r sesiynau ymgysylltu yn synnu at ddiffyg brwdfrydedd rhai athrawon dros gael mwy o hyfforddiant:

> *“Nid yw rhai athrawon am gyfaddef nad yw’r wybodaeth i gyd ganddyn nhw neu nad ydyn nhw wedi’u hyfforddi'n llawn. [...] Dylai athrawon fod yn agored i ddysgu pethau newydd hefyd. [...] Os yw athrawon yn gwrthod eu haddysgu eu hunain, sy’n rhywbeth y mae llawer o athrawon yn ei wneud, bydd y disgyblion yn dilyn eu hesiampl ac mae hyn yn golygu bod yr ysgol gyfan yn dod yn amgylchedd tocsig ac felly nid yw'n gynhwysol i bob plentyn.”*- Plentyn awtistig

Roedd prinder staff wedi’u hyfforddi mewn hunanofal ac anghenion toiled yn rhwystro llawer o blant rhag mynychu addysg brif ffrwd, waeth beth fo darpariaethau eraill yr ysgol. Roedd rhiant plentyn â thiwmor ar yr ymennydd yn poeni am staff yn delio â digwyddiadau baeddu a allai ddigwydd yn ystod addysg brif ffrwd, gan ofni na fyddent yn gwneud dim ond ffonio'r rhiant. Roedd y diffyg hyblygrwydd hwn yn peri pryder i'r rhiant, oherwydd efallai na fyddai anghenion corfforol y plentyn yn cael eu diwallu.

Bu'n rhaid i riant arall i ddau blentyn ag anableddau corfforol frwydro am fynediad i gyflenwad dŵr ar gyfer gofal meddygol yn yr ysgol. Roedd y rhiant yn pryderu bod y ffaith bod sawl aelod o staff yn helpu’r plentyn arall i fynd i’r toiled yn codi pryderon o ran diogelu.

> *“Cefais ffeil yr ystafell ymolchi ar ddamwain, ac roedd yn dangos nad oedd unrhyw nyrsys wedi bod yn ymweld a bod dros 14 o staff asiantaeth yn mynd yn ôl ac ymlaen gyda fy mab i’r ystafell ymolchi.”*

Cyfleoedd cyfyngedig i leisiau rhieni gael eu clywed:

> *“Fel rhiant, rwy’n teimlo eu bod nhw (y staff addysgu) yn mynd allan o'u ffordd i'ch cadw hyd braich oherwydd maen nhw'n meddwl os ydych chi'n dweud rhywbeth wrthyn nhw y bydd hynny’n creu gwaith – mae angen iddyn nhw fod yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddeall, ond rwy’n sylweddoli bod eu hamser yn gyfyngedig.”* - Rhiant plentyn â dau glefyd genetig cynyddol

Roedd rhieni'n aml yn dweud eu bod yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt, er mai nhw oedd yn eirioli gryfaf dros eu plentyn.

*"O tua 18 mis oed, rydw i wedi gorfod brwydro am bopeth, hyd yn oed iddi gael ei gweld, a doedd neb yn gwrando."* – Rhiant plentyn ag epilepsi

*"Maen nhw'n meddwl mai'r rhieni yw'r broblem […] Does neb wir yn gwrando." – Rhiant*

Dywedodd rhiant sydd â sawl plentyn ag anghenion amrywiol nad oedd yn ymddiried fawr ddim yn yr awdurdod lleol o ran addysg ei blant, ac fe'i disgrifiodd mewn ffordd negyddol. Dywedodd y rhiant ei fod yn teimlo bod ei farn yn cael ei diystyru, gan bwysleisio nad yw gweithwyr proffesiynol yn ystyried anghenion ei blentyn mewn gwirionedd. Mewn achosion lle mae plant yn cuddio eu hanghenion yn yr ysgol, mae rhieni wedi wynebu rhwystrau wrth geisio cael cymorth. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gyrru i amau eu hunain, a bod gweithwyr proffesiynol yn diystyru pwysigrwydd cymorth un-i-un. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn ffuantus ac yn amhroffesiynol, gan fod rhieni'n deall yr angen am oruchwyliaeth mewn gwahanol leoliadau.

*"Rydyn ni i fod i gael ein hystyried pan fydd y Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei lunio ond does dim ots ganddyn nhw o gwbl, does dim ots ganddyn nhw ein bod ni wedi profi cymaint a'n bod ni'n gwybod beth sy'n digwydd." - Rhiant*

"*Dywedodd yr ysgol fod angen i ni newid ei ymddygiad, ac fe esboniais ei fod yn awtistig, ond cafodd ei atal yn gorfforol bob dydd yn yr ysgol honno. Esboniais nad ydym erioed wedi ei atal yn gorfforol gartref ac mae wedi bod gyda ni am saith mlynedd. Siaradodd rhai o'r staff â mi y tu allan i'r ysgol a dweud eu bod yn credu ei bod yn amhriodol iddo gael ei atal yn gorfforol. Daeth yn ôl gyda chymaint o gleisiau a marciau olion bysedd a dywedwyd wrthyf fy mod yn groendenau ac yn chwilio am bethau."* – Rhiant maeth plentyn â spina bifida.

### Diffyg gofal plant gydol y flwyddyn, gofal cofleidiol a chymorth yn ystod gwyliau ysgol

*"Does dim cyfle cyfartal o ran gofal plant dros wyliau'r haf."* Rhiant plentyn â syndrom Down

*"Does DIM darpariaeth o ran cyfleusterau gofal plant!!!!! Does gen i DDIM dewis!!!! Dyw'r nifer cyfyngedig o leoedd dros yr haf ddim hyd yn oed yn ddewis, loteri yw e […] Hyd yn oed pe bawn i'n gyfoethog does dim cyfleuster yn ardal fy awdurdod lleol y gallaf, o'm dewis fy hun, anfon fy mhlant iddo i*

*gael lefel y gofal plant sydd ei angen arnyn nhw."* - Rhiant i ddau blentyn dieiriau awtistig ag anghenion cymhleth.

Soniodd rhieni am broblemau hanfodol o ran mynediad at ofal plant i blant anabl. Dywedodd cyfranogwyr nad oes cyfleuster, yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, sy'n fodlon derbyn plant anabl:

*"All plant dros 5 oed yn fy awdurdod lleol i ddim cael mynediad at ofal plant. Maen nhw'n dweud y gall y rhieni gael cyllid i'r plentyn fynd i feithrinfa, ond all y meithrinfeydd ddim cynnig y ddarpariaeth i ofalu am blant ag ASD sy'n ddieiriau ac sydd â lefel uchel o anghenion cymhleth. [..] Mae un o fy mhlant yn tynnu amdano, a'r llall efallai'n gwthio dillad i lawr y toiled a'i fflysio. Mae angen goruchwyliaeth un-i-un gyson ar ein plant."*

Dywedodd rhiant arall i blentyn â pharlys yr ymennydd:

*"Trefn ddyddiol yw'r peth pwysicaf, a phan fydd chwe wythnos o wyliau, wel mae'n debycach i saith, mae hynny mor heriol. Roedden ni'n gobeithio defnyddio ysgol haf drwy'r uned anghenion addysgol arbennig ond fe gafwyd gwared arni ac fe wrthododd yr awdurdod lleol ei hariannu."*

Roedd rhieni o'r farn y byddai parhad o ran darpariaeth gofal plant drwy gydol y flwyddyn yn ddefnyddiol:

*"Alla i ddim dweud wrthych pa mor negyddol yw effaith gwyliau ysgol ar fy mhlant. Y sefyllfa ddelfrydol i mi fyddai, os yw'r rhieni eisiau mynd â'r plant allan o'r ysgol am wyliau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, gadewch iddyn nhw wneud hynny. Oherwydd mae unrhyw egwyl yn tarfu ar y patrwm cysgu a'r dillad maen nhw'n eu gwisgo. Rwy'n deall bod angen seibiant ar athrawon hefyd ond efallai y gallen nhw hefyd gymryd gwyliau unrhyw bryd. Byddai hynny o gymorth mawr."*

Dywedodd rhieni fod peidio â chael mynediad at ofal plant yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Roedd methu â chael mynediad at ofal plant yn golygu nad oeddent yn gallu gweithio a bod rhaid iddynt roi'r gorau i'w gyrfaoedd. Nid mater o ddewis oedd hynny iddynt.

*"Mae gen i blentyn arall heb anabledd ac fe alla i glicio botwm a gall hi fod mewn gwersyll am chwe wythnos dros y gwyliau. Mae mor syml â hynny."*

### Cyfathrebu annigonol

> "*Diffyg cyfathrebu yw'r norm ym mhob ysgol mae wedi bod ynddi erioed*."
> Rhiant plentyn awtistig a oedd wedi bod mewn pedair ysgol.

Soniodd rhai rhieni am gael gwybod yn ystod nosweithiau rhieni fod eu plant yn cael trafferth. Weithiau roedd hyn yn rhy hwyr iddynt ymyrryd a helpu eu plant i ddal i fyny.

Cododd rhieni bryderon ynghylch cyfathrebu annigonol gan staff yr ysgol ynghylch profiadau dyddiol disgyblion dieiriau. Roeddent am weld systemau cadarn i gyfleu gwybodaeth hanfodol megis manylion gofal iechyd ac ysgarthu na allai'r plant gyfathrebu yn eu cylch.

Yn ogystal, roedd pryderon am ddiogelwch eu plant, gyda phryderon am gynnydd posibl mewn cam-drin corfforol mewn lleoliadau ysgol.

> *"Cafodd fy mab ei frathu a doedd yr ysgol ddim hyd yn oed yn gwybod am y peth. Ac mae'r math yma o beth yn digwydd drwy'r amser."*
>
> *"Pan ffoniais i'r ysgol oherwydd bod fy mab wedi cael ei roi mewn clo pen gan ddisgybl arall, roedd y Cydlynydd ADY fel petai'n synnu fy mod wedi ffonio'r ysgol am hynny."*

### Mynediad annigonol at adnoddau'n gysylltiedig â chanfyddiad o ddiffyg cyllid:

Siaradodd rhieni'n gadarnhaol am yr ysgol gan bwysleisio nad yr ysgol oedd yn methu â diwallu anghenion eu plentyn. Yn aml, yr awdurdod lleol oedd yn gwrthod ariannu aelod o staff i gynorthwyo'r plentyn mewn amgylchedd prif ffrwd.

> *"Mae'r ysgol yn gwneud popeth yn ei gallu. Yr awdurdod lleol sydd ddim eisiau gwneud dim byd i helpu ar hyn o bryd."* - Rhiant
>
> *"Mae rhai ysgolion yn gallu addasu'n well ond mae arian yn eu hatal rhag bod yn fwy cynhwysol [..] byddai llawer o ysgolion yn barod i wneud mwy pe bai ganddyn nhw fwy yn eu cyllidebau."* - Rhiant

Roedd un rhiant sydd â phlentyn â syndrom Down yn teimlo bod angen i gynhwysiant *"fod yn seiliedig ar anghenion y plentyn hwnnw, nid ar faint o arian sydd ar gael. Mae gan bawb hawl i addysg ac i gyflawni hyd eithaf ei allu."*

### Amserlenni wedi'u cwtogi:

Mae amserlenni plant ag anableddau yn aml yn cael eu cwtogi, ac maent yn cael llai o oriau o addysg na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Er mai'r cyfiawnhad yn aml yw na all y

plentyn ymdopi mewn lleoliadau estynedig, mae llawer o rieni'n amau mai'r rheswm mewn gwirionedd yw bod niferoedd staff yr ysgol yn gyfyngedig.

> *"Dim ond rhwng 9 a 12 o'r gloch roedden nhw ei heisiau, ond dywedais 'na' oherwydd does neb yn ei helpu. Maen nhw wedi dweud ei bod hi ar ei hôl hi'n ddifrifol, a dim ond gwneud pethau'n waeth fyddai bod gartref am hanner diwrnod."* - Rhiant plentyn sydd wedi cael diagnosis o oedi datblygiadol cyffredinol

Disgrifiodd rhai rhieni hyn fel "*eithrio adeiladol*."

Pan ddisgwylir i blant fod gartref am gyfnodau estynedig, mae rhieni wedi cael trafferth cael gwaith addas (os o gwbl) i'w plentyn ei wneud gartref.

> *"Does dim help ar gael. Gofynnais i'r athrawon fy e-bostio i rannu themâu a phynciau – rwy'n gorfod gobeithio'r gorau!" - Rhiant*

Eglurodd rhiant plentyn mewn addysg blynyddoedd cynnar, sy'n aros am ddiagnosis o awtistiaeth, fod rhaid iddo fynd â'i blentyn allan o'r ysgol am 30 munud yn ystod amser cinio. Y rheswm dros hyn oedd anallu'r ysgol i gyllido staff ar gyfer goruchwyliaeth amser cinio. Mae'r plentyn ar ei golled o ran yr agweddau cymdeithasol yn ystod yr egwyl ginio tra bo'i gyfoedion yn aros yn yr ysgol. Yna mae'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol am awr a 25 munud ar amserlen wedi'i chwtogi cyn gorffen y diwrnod.

## Prosesau gwael o ran mynediad at gymorth

Disgrifiwyd y system ar gyfer cael mynediad at gymorth fel un heriol, nad yw'n briodol ar gyfer pobl sydd eisoes dan ormod o straen:

> "*Rydych chi'n teimlo eich bod yn chwarae gêm ond does neb yn esbonio'r rheolau wrthych*" – Rhiant plentyn â syndrom Down.
>
> "*Mae'r cwestiynau ar asesiadau addysgol yn agored iawn a phan fyddwch yn delio â'r straen o ddydd i ddydd o gynorthwyo dau blentyn anabl, yn enwedig un â salwch sy'n peryglu bywyd ac un arall sy'n gallu bod yn anwadal iawn, does gennych chi ddim lle yn eich pen i feddwl yn arloesol. Ac rydych chi'n clywed bygythiadau fel "os nad yw e yn y papur yma fydd e ddim yn cael sylw*" – Rhiant i ddau o blant anabl

Roedd gan rieni bryderon am bob plentyn gan eu bod yn teimlo y gallai fod rhieni nad ydynt yn gallu cael mynediad llawn at gymorth oherwydd y rhwystrau a'r heriau cyson. Nid oedd gwybodaeth yn cael ei disgrifio fel rhywbeth hygyrch.

> *“Mae rhieni dan anfantais os nad yw’r wybodaeth ganddyn nhw ac nad ydyn nhw'n gwybod am yr holl bethau sydd ar gael. Mae'n annheg os nad ydych yn gyfarwydd â’r system. […] Rwy’n gwybod ble i chwilio am wybodaeth, ond i rai rhieni mae’n hynod anodd.”*- Rhiant

Roedd ansawdd gwasanaethau cludiant yn amrywio ond, yn aml, nid oeddent yn hyblyg

> *“Roedd ganddo ddatganiad cyn y diagnosis, ac roedd yn rhan o ysgol brif ffrwd, ac fe glywais am y lwfans anabledd. Ddywedodd neb wrtha i. Wnaeth neb sôn am gludiant […] Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu parcio ym maes parcio’r ysgol ac weithiau roedd rhaid i mi barcio ar y ffordd a’i gario i mewn i’r ysgol.”* - Rhiant plentyn â dau glefyd genetig cynyddol.

Dywedodd rhiant i ddau blentyn dieiriau awtistig ag anghenion cymhleth nad yw cludiant bob amser wedi bod yn berffaith. Ar un adeg, roedd rhaid i'r cwmni tacsi hefyd gludo plentyn oedd yn gorfforol ymosodol ac fe ddaeth hyn yn broblem.

> “*Wnaethon nhw ddim byd nes i’r plant ddod adref un diwrnod wedi cynhyrfu’n lân am eu bod wedi cael eu taro a bod eu gwallt wedi cael ei dynnu. Fe gwynais i a dweud nad oeddwn yn teimlo’u bod yn ddiogel. Mae’r gwasanaethau trafnidiaeth bob amser eisiau tystiolaeth. Mae'n ofnadwy nad ydyn nhw'n gwrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Roedd rhaid i mi roi fy mhlant mewn tacsi gyda’r plentyn yma nes iddo droi’n dreisgar, a than i hynny ddigwydd, doedd dim modd gwneud dim. […] Rwy’n teimlo bod arian yn bwysicach iddyn nhw na lles y plentyn o ran cludiant.”*

Roedd sawl rhiant yn wynebu heriau o ran cael cludiant digonol, ac felly roeddent yn gyrru eu plant i'r ysgol ac yn aros gerllaw nes ei bod yn bryd eu casglu. Wrth drefnu cludiant i un ysgol, ceisiodd rhiant drefnu i'r plentyn, y gyrrwr a'r hebryngwr gwrdd. Cafodd y rhiant fraw pan ddywedodd y cwmni cludiant eu bod “*wedi arfer delio â phobl sydd ddim yn normal*”, ac fe wrthododd y cludiant.

Roedd diffyg hyblygrwydd o ran cludiant, ac fe gyrhaeddodd un plentyn o leiaf 20 munud yn gynnar oherwydd bod rhaid darparu ar gyfer plentyn awtistig arall, sy’n dangos effaith lleoliadau ysgol cyfyngedig. Cafodd rhiant arall frwydr â’r gwasanaethau trafnidiaeth, oedd yn gwrthod gwyro oddi wrth y polisi “o’r cartref i’r ysgol, o’r ysgol i’r cartref yn unig”, er bod y rhiant yn fodlon casglu'r plentyn o'r feithrinfa, ac achosodd hyn drafferth mawr.

Nid yw amgylcheddau ysgol yn ffafriol i blant anabl a niwrowahanol

Nododd rhieni fod dosbarthiadau sy'n rhy fawr, goleuadau llym, byrddau arddangos prysur a mannau gorlawn yn ffactorau nad ydynt bob amser yn ffafriol i greu amgylchedd dysgu addas ar gyfer plant anabl a phlant niwrowahanol.

> *"Os nad yw'r ysgol yn edrych fel un hygyrch, yna mae'r rhiant yn mynd i'w diystyru fel opsiwn i blentyn anabl […] oni bai eich bod yn gallu dychmygu eich plentyn mewn ysgol, dydych chi ddim hyd yn oed yn mynd i guro ar y drws."*

Roedd rhieni o'r farn bod cydgynhyrchu wrth ddylunio adeiladau ysgolion yn hollbwysig.

> *"Pan nad yw cynlluniau a dyluniadau'n cael eu cydgynhyrchu, anaml y byddan nhw'n addas at y diben."*

Yn ogystal, oherwydd gorsymbylu a/neu orflinder, mae plant anabl a niwrowahanol wedi cael eu cadw ar wahân:

> *"Yn ystod adolygiad diwethaf fy mab yn yr ysgol brif ffrwd, roedd hi'n amlwg nad oedd yn treulio unrhyw amser yn yr ystafell ddosbarth oherwydd ei bod yn or-synhwyraidd. Roedd yn ei chael yn anodd treulio mwy na 2 awr y dydd yn yr ystafell ddosbarth. Ond doedd gan yr ysgol ddim ystafell dawel nac unman i fynd ag ef felly roedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn y coridor yn ei gadair olwyn. Dyna'r cyfan oedd ar gael yn yr ysgol."*

Tynnodd rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd sylw at ddiffyg hygyrchedd i gadeiriau olwyn yn y rhan fwyaf o ysgolion awdurdodau lleol, gan nodi diffyg cyfleusterau megis gwely newid. Wrth gynllunio siwrneiau, mae angen newid y plentyn cyn gadael, hyd yn oed ar gyfer ymweliadau ysbyty. Pwysleisiodd rhai rhieni fod bwlch yn y ddarpariaeth, sef bod opsiynau ar gael ar gyfer plant ag anableddau difrifol neu blant niwronodweddiadol ond bod diffyg cymorth i'r rhai sydd rhwng y ddau.

> *"Mae yna "blant sydd rhwng dwy stôl" sy'n ei chael hi'n anodd iawn a does dim cyfleuster addysgol ar gael iddyn nhw."*

## 3. Effaith

Wrth sôn am yr effaith ar bobl sydd wedi byw'r profiadau hyn pan na allant gael mynediad at ofal plant ac addysg clywyd geiriau fel "brwydro", "ymladd", neu "drafferth" dro ar ôl tro i ddisgrifio'r profiadau. Roedd y pwysau aruthrol ar deuluoedd yn amlwg, ac roedd defnyddio'r derminoleg hon yn rhan annatod o'u trafodaethau, a hynny'n adlewyrchu natur eu profiadau.

*“Mae rhywbeth mawr o’i le pan fo rhaid i chi wybod cymaint mwy na nhw [awdurdodau lleol] er mwyn gallu brwydro i gael y darpariaethau sy'n addas i’ch plentyn […] Mae’n frwydr gyson a ddylai hi ddim bod yn gymaint â hyn o frwydr am bopeth.”* Rhiant plentyn â pharlys yr ymennydd

Disgrifiodd rhiant plentyn â chyflwr genetig rôl pob "Mam" i blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel “byddin o un”. Mae’r rhieni hyn yn brwydro’n gyson ar ffryntiau amrywiol i gynnal hawliau. Er efallai fod eu profiadau’n debyg, mae'r brwydrau’n unigryw oherwydd bod pob plentyn yn wahanol, ac mae hynny’n golygu bod y rhiant yn ymladd ar ei ben ei hun.

### Cyflogaeth i deuluoedd sydd â phlentyn anabl

*“Roedd fel pe bai’r ysgol ddim yn meddwl fy mod yn gyflogedig. Roedden nhw’n disgwyl i mi ofalu am fy mhlentyn pan benderfynon nhw dros nos na allen nhw ei gael yn yr ysgol.”* - Rhiant

Dywedodd rhieni dro ar ôl tro y byddai'n amhosibl gweithio yn eu sefyllfa nhw. Roedd rhai’n gallu gweithio ond efallai wedi cymryd swyddi ar lefel is neu’n hunangyflogedig er mwyn gallu gweithio o amgylch gofal plant. Disgrifiwyd hyn fel 'jyglo' (yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf). Dywedodd rhieni:

*“Rwy’n teimlo nad oes hawl gen i i gael gyrfa. Dywedodd elusen wrtha i “Ydych chi wedi meddwl am beidio â gweithio?” Fydden nhw'n dweud hynny wrth fy ngŵr?”*

*“Does dim cymhelliant i weithio, oherwydd does dim cymorth, does dim gofal plant. Maen nhw’n creu problem drwy beidio â chreu gofal plant.”*

### Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant

Mae iechyd meddwl plant anabl yn amrywio, ac mae hynny’n gysylltiedig â mynediad at addysg neu ofal plant. Mae profiad negyddol yn yr ysgol yn cyfrannu at faterion sy’n ymwneud â gorbryder ac ymlyniad. Mae plant yn teimlo’u bod yn cael eu heithrio oherwydd eu hanghenion arbennig a diffyg dealltwriaeth athrawon. Mae rhai’n sôn am deimlo’n ynysig yn gymdeithasol a’i chael yn anodd gwneud ffrindiau heb ddigon o gymorth gan athrawon.

Mae plentyn byddar y mae ei iechyd meddwl at ei gilydd yn dda weithiau’n teimlo’n unig gan mai ef yw’r unig ddisgybl byddar. Mae rhieni’n sôn am oedi gan ysgolion a

gwasanaethau o ran ymdrin ag iechyd meddwl, ac mae llawer ohonynt ar restrau aros hirfaith, hyd yn oed ar gyfer gofal mewn argyfwng.

> *“Mae wedi dweud wrth staff yr ysgol ei fod wedi meddwl am hunanladdiad ac rydym wedi cael ein rhoi ar restr aros yr ydym wedi bod arni am ddwy flynedd bellach.”*
>
> *“Fe aeth hi’n argyfwng yn y pen draw, a chefais fy atgyfeirio at y tîm argyfwng, ond mae rhestr aros chwe mis. […] Cefais fy atgyfeirio ar ôl i mi wrthod mynd â fy mhlentyn adref am nad oeddwn yn gallu ymdopi. Dyna pryd y sylweddolodd yr ysgol fod angen cymorth arnaf.”*

Mae iechyd meddwl gwael yn effeithio ar deuluoedd cyfan. Mae un rhiant, sydd wedi blino’n lân ar ôl brwydro’n gyson yn y system addysg, yn rhag-weld y bydd yn rhyddhad pan fydd ei blentyn yn gadael y system. Mae'r dreth ar rieni yn cynnwys straen, gorbryder, a diffyg cwsg. Mae rhai’n teimlo’u bod yn galaru am eu plant, ac yn dweud bod addysg wedi claddu eu gobeithion.

Roedd rhiant plentyn â syndrom Down yn poeni am y dyfodol a phwysleisiodd pa mor bwysig yw cael yr addysg iawn. Dywedodd rhiant arall, sydd ar hyn o bryd yng nghanol proses tribiwnlys i sicrhau cymorth i’w blentyn, mai dyma’r profiad sydd wedi achosi’r straen mwyaf erioed iddo.

Wrth drafod iechyd meddwl, esboniodd un plentyn:

> *“Yn fy hen ysgol, roedd diffyg darpariaeth ar gyfer fy anghenion, roeddwn i’n llefain bob dydd, yn sownd yn y cylch diddiwedd yma o fynd i’r ysgol, cael fy mwlio, dod adref, llefain, cysgu a gwneud y cyfan eto. Roedd fy ngwaith ysgol yn dioddef oherwydd bod rhaid i mi ganolbwyntio o hyd ar f’amddiffyn fy hun. Ond yn fy ysgol newydd, mae'r ddarpariaeth yn well o lawer ac mae gen i lawer mwy o gyfeillion sy'n fy neall i erbyn hyn. Mae gennym hyd yn oed rai athrawon niwrowahanol. Mae cael mynediad at gymorth ADY a chymorth llesiant wedi bod yn help aruthrol. Rwy’n tueddu i roi mwy o sylw i lesiant ac rwy’n mynd i’w canolfan ddwywaith y dydd.”*

## Diffyg mynediad at eu hawliau

Nid yw rhai gweithwyr addysg proffesiynol wedi darllen Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ac mae hynny’n arwain at sefyllfaoedd lle y mae pobl yn dal i gael eu cadw ar wahân, yn ôl un rhiant. Maent yn priodoli hyn i natur lethol eu swyddi a defnyddio cyllid y llywodraeth yn aneffeithlon.

Galwodd rhiant arall, sydd â phlentyn â pharlys yr ymennydd, am fwy o gyfleoedd integredig er mwyn osgoi cadw plant anabl a phlant niwronodweddiadol ar wahân, a

mwy o sylw i sicrhau y gall eu plentyn integreiddio â chyfoedion niwronodweddiadol. Mynegodd rhieni rwystredigaeth eu bod yn cael eu diystyru gan bobl yn y sector.

> *“Rwy’n gwybod beth yw fy hawliau ond dyw hynny ddim yn wir am bawb, ac weithiau rwy’n cysylltu â gweithwyr proffesiynol i gael mynediad at bethau ac maen nhw’n gwneud esgusodion, yn dweud wrthyf am edrych ar rywbeth arall yn gyntaf a dod yn ôl wedyn os yw’n dal yn broblem. Maen nhw’n gosod rhwystrau hyd yn oed pan ddywedwch chi “Rwy'n gwybod bod gen i hawl i hyn.””*

Disgrifiwyd cadw plant anabl ar wahân mewn addysg fel “y norm.” Mynegodd teuluoedd bryder y bydd plant anabl bob amser yn cael eu cadw ar wahân os nad ydynt yn weladwy mewn lleoliadau addysg.

> *“Pe na bai fy mab mewn ysgol brif ffrwd, fyddai ei gyfoedion sydd ddim yn anabl ddim yn gwybod ei fod yn bodoli.”*
>
> *“Dyw cynghorau ysgol ddim yn cynrychioli nac yn cynnwys lleiafrifoedd, na llais plant anabl.”*

Roedd y plant yn gyffredinol yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt pan oeddent yn yr ysgol, ond “*nid drwy'r amser*.” Er enghraifft, pan oedd y plant eisiau cymryd rhan mewn pethau nid oeddent bob amser yn cael gwybod pam nad oedd hynny'n bosibl.

Mae effaith ariannol ar deuluoedd oherwydd bod ganddynt blentyn anabl:

> *“Gallwch chi fod yn sicr y bydd unrhyw beth ag “anghenion arbennig” yn y teitl yn costio mwy nag unrhyw beth arall.” – Rhiant plentyn â syndrom Down*

Dywedodd rhieni eu bod yn aml yn gorfod talu am bethau i'w plant oherwydd eu hanabledd. Gallai hyn fod yn gostau meddygol a fyddai'n lleihau amseroedd aros, neu’n gyfarpar bob dydd.

> *“Rwyf wedi gorfod prynu nifer o gwpanau / poteli gan nad yw’r therapyddion galwedigaethol yn gwrando arna i o ran yr hyn sydd ei angen ar fy mab. Rwyf hefyd wedi gorfod prynu’r rhan fwyaf o bethau i’r cartref gan gynnwys gwely arbennig, cwpanau, cyllyll a ffyrc, bwrdd neu ddesg y gellir ei haddasu .. cadeiriau olwyn (dyw’r un a roddwyd i ni ddim yn addas at y diben ac mae’r GIG yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi dweud mai dim ond cyfarpar sylfaenol y dylid ei ddarparu). Rwy'n darparu cewynnau ychwanegol gan fy mod yn rhannu fy rhai i â'r ysgol. Dyw Llywodraeth Cymru ddim yn darparu ar*

*gyfer cewynnau sy'n rhwygo na'r angen am ragor o glytiau os oes gan y plentyn anhwylder stumog - dyw hi ddim yn hawdd ac rydym wedi bod ar ein gliniau o ran problemau ariannol ond rydym yn gwneud ein gorau."* – Rhiant plentyn â spina bifida

Agweddau cadarnhaol

Er bod teuluoedd yn gyffredinol yn sôn am brofiadau negyddol o ran cael mynediad at addysg a gofal plant i blant anabl neu niwrowahanol, rhannwyd rhai sylwadau cadarnhaol. Mae teuluoedd yn dweud eu bod yn fodlon pan fo'r plentyn mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol, ac yn canmol ymdrechion i groesawu a chynnwys y plentyn yn y lleoliad addysg.

*"Dim ond profiad da ges i erioed gyda'r ysgol AAA, maen nhw'n mynd yr ail filltir."*

*"Rwy'n meddwl bod yr ysgol wedi bod yn wych, maen nhw wedi newid pethau i'w helpu. Er enghraifft, i'w helpu'n weledol, maen nhw wedi paentio grisiau, wedi newid yr arwyddion wedi'u lamineiddio i fod yn rhai di-sglein, maen nhw wir wedi ceisio helpu. Os oes unrhyw broblemau, rwy'n teimlo y gallaf bob amser godi'r ffôn a siarad â nhw."*

Gellid priodoli hyn i nifer o staff yn y gweithlu sy'n barod i sicrhau bod cynhwysiant yn flaenoriaeth:

*"Roedd y profiad yn yr ysgol uwchradd yn gadarnhaol iawn mewn sawl ffordd. Ond roedd y profiad yn yr ysgol gynradd yn wahanol iawn. Cafodd rhai unigolion effaith fawr ar agwedd yr ysgol gyfan."*

# 4. Atebion

Yn ystod y sgyrsiau, cynigiwyd rhai atebion gan deuluoedd:

1. Mae hyfforddiant gwell i athrawon yn hollbwysig.
2. Gall cydweithio rhwng ysgolion AAA ac ysgolion prif ffrwd wella sgiliau cyfathrebu ymhlith staff.
3. Mae rhoi mwy o gefnogaeth a chyllid i asiantaethau allanol o fudd i rieni, ac yn rhoi ymdeimlad o gymuned.

4. Mae rhieni'n cynnig y gellid estyn absenoldeb statudol ar gyfer gofal plant (hyd at bythefnos y flwyddyn) i'r rhai sydd â phlant anabl.
5. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn cyfathrebu'n well, yn enwedig ar gyfer plant dieiriau.
6. Gallai cydlynydd awdurdod lleol canolog symleiddio'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
7. Dylai pob ysgol gynnwys "mannau tawel" sy'n hygyrch i bawb.

## Atodiad 1 – Canllaw Trafod

Gofynnwyd i deuluoedd am eu barn am y cwestiynau a ganlyn:

- A yw plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol yn gallu cael popeth sydd ei angen arnynt yn eu hysgol neu feithrinfa?
- A yw plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol yn cael eu gadael allan o unrhyw agwedd ar eu haddysg?
- A yw plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol wedi cael eu trin yn annheg?
- Sut mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol? Ydyn nhw'n gwneud yn dda yn yr ysgol neu'r feithrinfa?
- Pa bethau sy'n atal ysgolion a meithrinfeydd rhag darparu addysg gynhwysol a hygyrch? (Mae cynhwysol yn golygu y gall pawb gymryd rhan, a bod gan bawb gyfle teg. Mae hygyrch yn golygu y gall pawb ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.)
- Pa mor dda y mae ysgolion neu feithrinfeydd yn siarad â phlant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol a'u teuluoedd? A ydynt yn eu cynnwys mewn penderfyniadau a dewisiadau?
- A yw plant a phobl ifanc anabl a niwrowahanol a'u teuluoedd yn teimlo bod ganddynt yr un dewisiadau ag eraill?
- A oes gwasanaethau ar gyfer gwahanol fathau o anabledd?

## Atodiad 2 – Sefydliadau sy'n rhanddeiliaid

Cysylltodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion â'r sefydliadau a'r elusennau a ganlyn, a chydweithiodd â hwy, i ganfod teuluoedd a'u cynorthwyo i gymryd rhan:

Both Parents Matter

Cymdeithas Athrawon Plant a Phobl Ifanc Fyddar Prydain (BATOD)

Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Tadau Gofalgar
Cyngor Ceredigion
Contact
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg - Iechyd Cymunedol
Anabledd Cymru
Epilepsy Action
Faith in Families
Cyngor Sir y Fflint –
Homestart
Long Covid Kids
MENCAP – Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant
Byddar
PAN (Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni)
Gorllewin Morgannwg
Rhwydwaith rhieni a gofalwyr: YMCA,
Bargoed
Parents 4 Change
Plant Dewi
Sense Cymru
STAND North Wales – Stronger Together
for Additional Needs and Disabilities
TGP
The Hive a Fforwm HELP Sir Gaerfyrddin
TUC
Tŷ Hafan
Valley Daffodils – yng Nghaerffili
Plant y Cymoedd
WEN Cymru